

# Undod

## Darllen: 1 Corinthiaid 12:27

Mae Paul yn ei lythyr cyntaf at y Corinthiaid yn sôn am lawer o aelodau mewn un corff, ‘Oherwydd fel y mae’r corff yn un, a chanddo lawer o aelodau, a’r rheini oll, er eu bod yn llawer, yn un corff, fel hyn y mae Crist hefyd’ (1 Corinthiaid 12:12). Mae’n bur debyg ein bod i gyd yn gwybod hynny o brofiad. Os bydd gennym ryw anhwylder bach, cur yn y pen, y ddannodd, neu ewin yn tyfu i’r byw byddwn yn teimlo’n llipa a difywyd. Dim llawer o amynedd i ddim. Wedi cymryd tabled neu ddwy at y pen, tynnu neu lenwi’r dant, a thorri’r ewin bydd pethau’n gwella a byddwn yn dod atom ein hunain. Un funud, mae’r holl gorff yn dioddef oherwydd un rhan o’r corff, a’r funud nesaf mae’r holl gorff yn teimlo’n well am fod y boen wedi mynd heibio.

Doedd perthynas i mi byth yn sâl na byth yn dioddef. A dweud y gwir, byddai’n ddigon blin a pharod ei dafod efo unrhyw un oedd yn cwyno. Droeon fe’i clywais yn dweud mai hen fabi oedd hwn a hwn neu hon a hon, ac mai cwyno er mwyn cael sylw oedden nhw. Mewn gwirionedd, yn ei dyb ef pobl wan ac eiddil oedd pobl sâl. Pobl eisiau sylw oedden nhw. O leiaf, felly y gwelai bethau nes iddo fo’i hun gael anhwylder. Chafodd o ddim afiechyd marwol, ond iddo fo roedd yn ddiwedd byd. Iddo fo, dyma’r salwch gwaethaf yn y byd, yn enwedig pan oedd rhaid iddo fynd i weld yr arbenigwr yn yr ysbyty! Bryd hynny y sylweddolodd beth oedd pobl eraill yn mynd drwyddo. Dyna pryd y dechreuodd gydymdeimlo â phobl sâl a phobl sy’n dioddef. A bod yn onest, wn i ddim ydi o wir yn cydymdeimlo â dioddefwyr hyd yn oed rwan.

Ond rhan o fawredd Iesu Grist yw ei fod yn medru cydymdeimlo â phawb, pwy bynnag ydyn nhw. Gwelodd y dyn hwnnw oedd yn byw ymhlith y beddau: y gwallgofddyn oedd yn ‘cael ei rwymo’n fynych â llyffetheiriau ac â chadwynau, ond yr oedd y cadwynau wedi eu rhwygo ganddo a’r llyffetheiriau wedi eu dryllio; ac ni fedrai neb ei ddofti’ (Marc 5:4), nes y

daeth Iesu yno. O fewn dim, roedd y gwallgofddyn yn ei iawn bwyll ac yn eistedd â'i ddillad amdano. Ymateb y trigolion oedd erfyn ar Iesu i fynd oddi yno, ac wrth iddo fynd i mewn i'r cwch gofynnodd y gŵr am gael mynd gydag ef. Ond cael ei wrthod a wnaeth. Roedd Iesu'n dymuno iddo aros efo'i bobl ei hun, y bobl oedd yn ei gofio fel gwallgofddyn, a chenhadu yn eu plith. Mewn gair, mae Iesu'n dweud wrtho y byddai'n fwy o bregeth ymhlith ei bobl ei hun nag ymhlith estroniaid yng Ngalaria. A dyna wnaeth o, 'dechrau cyhoeddi yn y Decapolis gymaint yr oedd Iesu wedi ei wneud drosto' (Marc 5:20). Cyfannodd Iesu fywyd y gwallgofddyn.

Doedd neb islaw sylw Iesu. Wedi iddo ddychwelyd o'r Decapolis mae Jairus, un o arweinwyr y synagog, yn ymbil arno, 'Y mae fy merch fach ... ar fin marw. Tyrd a rho dy ddwylo arni, iddi gael ei gwella a byw' (Marc 5:23). Pan gyrhaeddodd Iesu dŷ Jairus, roedd y bobl yn wylo ac yn dolefain. Aeth Iesu, ynghyd â Pedr, Iago ac Ioan, i mewn i ystafell y ferch fach. Ac meddai wrth y ferch oedd wedi marw, "Talitha cwm", sy'n golygu, "Fy ngeneth, rwy'n dweud wrthyf, cod" (Marc 5:41). Unwaith eto, mae Iesu'n cyfannu bywyd yr unigolyn, ac yn peri cryn syndod yn yr ardal. Roedd y teulu wedi bod ar chwâl, ond mae bellach yn unedig. A dyma oedd cenhadaeth Iesu gydol ei weinidogaeth, creu undod rhwng aelodau'r teulu, undod rhwng aelodau o'r gymdeithas, undod rhwng Iddewon a Samariaid, ac undod rhwng pobl a Duw. Dod i geisio ac i gadw'r colledig oedd byrdwn ei neges.

### **Myfyrdod pellach:**

Sut mae creu undod lle ceir rhaniadau ymhlith eglwys Iesu Grist heddiw?

Pa mor bwysig ydi cymryd camau pendant i gyfannu bywydau pobl yn eu cymdeithas?